COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER, CIVIC OFFICES/REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD IAU, 27 HYDREF 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | S J Griffiths |
| M L Hughes | M Jones | G Walter | AJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM Granville, RL Penhale-Thomas a/ac T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Lynne Berry | Rheolwr Grŵp Adfywio Tai a Chymuned |
| Joanne Ginn | Housing Solutions Team Leader |
| Ryan Jones | Rheolwr Comisiynu Tai Strategol |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

24. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Richard Granville, Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas a'r Cynghorydd Tim Thomas.

Rhoddodd y Cynghorydd Heidi Bennett ei hymddiheuriad o 11.30a.m. a'r Cynghorydd Paul Davies o 12.30p.m.

Swyddogion:
Carys Lord - Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Janine Nightingale – Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Cymunedau

Gwahoddedigion:
Y Cynghorydd Jane Gebbie - y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Lles
Y Cynghorydd Neelo Farr - Aelod y Cabinet dros Adfywio

25. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd Freya Bletsoe a'r Cynghorydd Amanda Williams ddatgan buddiannau personol yn eitem 4 ar yr agenda oherwydd bod *person hysbys iddynt mewn llety dros dro.*

26. MONITRO CYLLIDEB – RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 2 2022-23

Cyflwynodd Dirprwy Bennaeth Cyllid adroddiad, a diben hwn oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa ariannol refeniw y Cyngor fel ar 30 Medi 2022.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

- A oedd angen dychwelyd arian y tanwariant a ragwelid ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i Lywodraeth Cymru ynteu a ddylid ei gadw yng nghronfa gyffredinol y Cyngor ac, o ystyried yr argyfwng costau byw, a oedd yn ddoeth cael codiad bychan yn y Dreth Gyngor i sicrhau cyfradd gasglu uwch.
- Ystyr y term 'pwysau sifft y sianel'.
- Ble câi'r arbedion effeithlonrwydd unwaith ac am byth eu gwneud, p'un a oeddent wedi cael eu nodi eto ac a dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan Gyfarwyddiaethau i dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Lleihau'r Gyllideb?
- Pa ddewisiadau eraill oedd yn cael eu hystyried gwahanol i'r cynigion lleihau cyllideb mwyaf sylweddol oedd yn annhebygol o gael eu cyflawni'n llawn yn y flwyddyn ariannol?
- Y rhesymau dros yr amrywiannau sylweddol, yn enwedig y gorwariant a ragwelid, ym mhob un o'r Cyfarwyddiaethau gan gynnwys:
    - gorwario mewn Dysgu Cymunedol Oedolion;
    - gorwario mewn Anableddau Dysgu, Gofal Cartref a Chyfleoedd Dydd;
    - gorwario ac anwadalrwydd mewn Cynllunio a Datblygu; a
    - thanwario mewn Tai a Digartrefedd ac effaith bosibl Nawdd 6 mis Gwesteiwyr Ffoaduriaid o Wcráin yn dod i ben.
- Y camau sy'n cael eu cymryd i geisio mynd i'r afael â heriau'r gweithlu o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, cost a dibynadwyedd staff asiantaeth ac anawsterau recriwtio ar draws yr Awdurdod.
- Y derminoleg o gwmpas defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau cyfalaf, pa mor aml y cânt eu hadolygu a beth oedd y ffordd orau i gyfleu pwrpas cronfeydd wrth gefn i'r cyhoedd.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd i'r gwahoddedigion am eu presenoldeb a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, y caent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n llwyr drafodaethau'r Cyngor gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllido pellach neu barhad y Cynllun 'Cartrefi ar gyfer yr Wcráin' a nododd effaith y cyfnod nawdd 6 mis a weithredwyd drwy'r Cynllun sy'n dod i ben, a'r risg y bydd ffoaduriaid yn ddigartref. Cytunodd y Pwyllgor i fonitro hyn fel rhan o'u Blaenraglen Waith.
2. Pan fydd y Cyngor yn mynd i wneud datganiad i'r wasg ynglŷn â'r ymgynghoriad cyllideb sydd ar ddod, bod y Swyddogion i gadw gwella cyfathrebu mewn cof ar gyfer trigolion a gwella dealltwriaeth o'r gyllideb a phwrpas y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw.

<u>Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP)</u>

3. Bod BREP i ystyried sut mae'r gyllideb wedi'i gosod ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (SSWB) i adlewyrchu demograffeg y Fwrdeistref Sirol, lefel y galw a dyletswyddau statudol y Gyfarwyddiaeth.
4. Bod arwyddion cynnar o gyllidebau drafft arfaethedig pob Cyfarwyddiaeth yn cael eu cyflwyno i BREP, gyda dewisiadau posibl ar gyfer gostyngiadau yn y gyllideb, yn y cyfarfod cysylltiedig nesaf y gwahoddwyd pob Cyfarwyddwr iddo

a gofynnodd y Pwyllgor:

5. am gael derbyn mwy o fanylion am y rhesymau dros yr amrywiant o 56.2% a'r gorwario sylweddol yn adran Gynllunio a Datblygu Cyfarwyddiaeth y Cymunedau, y nododd y Pwyllgor ei bod yn adran oedd yn brin o staff.
6. am ymateb ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar y canlynol:

    a. Dibynadwyedd gweithwyr a darparwyr asiantaeth;
    b. Y gwahaniaeth cost rhwng gweithiwr asiantaeth o'i gymharu â Gweithiwr Cymdeithasol llawn amser;
    c. Ar gyfartaledd, faint o weithwyr asiantaeth oedd yn gweithio yn y Gyfarwyddiaeth SSWB; a

Hyd arhosiad cyfartalog gweithwyr asiantaeth yn y Gyfarwyddiaeth SSWB.

27. LLETY DROS DRO

Cyflwynodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau yr adroddiad a phwrpas hwn oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch darparu llety dros dro o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

- Pryderon ynghylch ai mesurau caffael presennol y gwasanaeth oedd y mwyaf priodol i sicrhau amddiffyniad i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau a pha wersi y gellid eu dysgu o drafodaethau diweddar â darparwyr llety dros dro masnachol, gan gydnabod bod y mater diweddaraf yn cynnwys estyniad i gytundeb presennol yn hytrach na chontract newydd.
- P'un a oedd y 21 unigolyn a osodwyd mewn llety dros dro mewn llety a ddarparwyd gan ddarparwyr dan gontract a phryderon ynghylch a oedd eu lleoliadau mewn perygl.
- Tra'n cydnabod y pwysau ar lety dros dro, effaith debygol Rhan 4 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar argaeledd eiddo rhent preifat ac eiddo rhent cymdeithasol a'i effaith ar yr awdurdod.
- Y gallai'r ddeddfwriaeth newydd arwain at eiddo gwag yn dod yn ôl i'w ddefnyddio'n gyflymach a'r effaith gadarnhaol y gallai hyn ei chael ar Ben-y-bont ar Ogwr.
- A yw'r ddeddfwriaeth newydd ynghylch addasrwydd i fod yn gartref yn berthnasol i lety dros dro.
- Pryderon ynghylch y cynnwrf a'r straen a achosid i deulu oedd yn symud i lety dros dro a'r pecyn o gefnogaeth a gynigid i deuluoedd yn y sefyllfa hon.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd i'r gwahoddedigion am eu presenoldeb a dywedodd y caent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, bod y Pwyllgor yn gwneud yr Argymhelliad canlynol:

7. Bod adolygiad yn cael ei gynnal ar gaffael llety dros dro a sut i sicrhau ei hirhoedledd ac y dylid adrodd yn ôl am hyn i'r Pwyllgor ar adeg briodol.

a gofynnodd y Pwyllgor:

am wybodaeth am y pecyn o gefnogaeth a ddarperid i deuluoedd ac unigolion oedd yn cael eu hadleoli i lety dros dro gan ystyried yn benodol yr effaith ar les plant oedd yn cael eu hadleoli i ffwrdd oddi wrth deulu a ffrindiau ac a oedd rhaid iddynt newid ysgol.

28. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith (FWP) i'r Pwyllgor yn Atodiad A i'w thrafod a'i hystyried, gofynnodd am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Pwyllgor ei chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion yr oedd arnynt eisiau iddynt fod yn bresennol, gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried yn y rhaglen gan gadw'r meini prawf dewis mewn cof ym mharagraff 4.3 a chyflwyno'r rhaglen ar gyfer Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 1, 2 a 3 fel Atodiadau B, C a D ar gyfer cydgysylltu a goruchwylio'r Flaenraglen Waith yn gyffredinol.

Dywedodd hefyd fod y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ynghlwm fel Atodiad E i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol a'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion ar gyfer pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc hefyd ynghlwm fel Atodiadau F, G a H.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan ystyried y meini prawf dewis ym mharagraff 4.3, a gellid ailedrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Ni chafwyd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried ac wedi cymeradwyo ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn nodi'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc, yn dilyn eu hystyried yn eu Cyfarfodydd Pwyllgor diweddaraf yn Atodiad B, C a D, ac yn nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau E, F, G a H.

29. MATERION BRYS

None.